

Targed 1	Gwiria dy gyfeirnod i sicrhau cywirdeb wrth gyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol am bob ffynhonnell.	Er mwyn sicrhau fy mod yn cyflawni'r targed yma rwyf wedi darllen canllawiau cyfeirnod Havard er mwyn ceisio sicrhau fy mod yn cyfeirnod i'n gywir.
Targed 2	Mireinia dy sgiliau synthesis ymhellach drwy gyfuno ffynonellau sy'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r un pwynt.	Er mwyn mynd i'r afael ar darged yma rwyf wedi ceisio cyfuno ffynhonellau. Gwelir enghreifftiau o hyn trwy gydol yr aseiniad megis ar dudlaen 2.

Gan gefnogi eich trafodaeth gyda theori, ymarfer a thystiolaeth o'r lenyddiaeth, adfyfyriwch yn feirniadol ar sut y byddech yn cefnogi dysgwr unigol sydd a'i g/chynnydd yn cael ei effeithio gan rwystrau penodol i'w dd/dysgu yn ystod un cyfnod pendant o drosglwyddo (llorweddol neu fertigol).

Nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru(2022) mai dibenion ysgolion ar draws Cymru yw i ddatblygu ac i feithrin dinasyddion uchelgeisiol, mentrus, gwybodus ac iach. Serch hyn a oes modd i bob plentyn yng Nghymru gwireddu'r nod yma gan ddyweda Freud(2023) bod nifer o bethau megis anghenion neu sefyllfaoedd trawmatig yn gallu effeithio ar allu plentyn i ddatblygu'n gyflawn. Bwriedir yn ystod yr aseiniad yma archwilio proffil plentyn sydd a'i gynnydd wedi ei effeithio gan orbryder o ganlyniad i drawma yn ei blentyndod cynnar. Wrth gyfeirio at y plentyn defnyddir y ffug enw Steffan er mwyn sicrhau bod canllawiau BERA(2024) yn cael ei ddilyn. Bwriedir archwilio i mewn i ba strategaethau mae modd defnyddio a gweithredu ar er mwyn darparu cymorth i Steffan wrth iddo wneud trosglwyddiad llorweddol anodd wrth symud o flwyddyn 3 i 4 ac er mwyn sicrhau bod Steffan yn cyflawni nod Llywodraeth Cymru(2022). Dyweda Comisiynydd plant Cymru(2024) "dylai pob sefydliad sy'n ymwneud a phlant bob amser wneud yr hyn sydd orau i bob plentyn" (Comisiynydd Plant Cymru, 2024, tud 1). Bwriedir yn ystod yr aseiniad yma sicrhau bod yr hawl sylfaenol yma yn cael ei wireddu gan ddatblygu strategaethau cynhwysol er mwyn sicrhau bod Steffan

yn gwneud cynnydd ar ei daith addysgol ac felly'n datblygu i fod yn ddinesydd cyflawn. Gobeithir hefyd gwella arfer broffesiynol wrth gyflawni'r aseiniad yma.

Mae Steffan yn ddisgybl 8 oed ac ar fin trosglwyddo o flwyddyn 3 i 4. Mwynheua Steffan bod yn greadigol a bod allan yn yr awyr agored. Serch hyn yn ystod ei blentyndod cynnar profodd Steffan drawma yn y cartref. Roedd Dad yn gaeth i gyffuriau ac o ganlyniad cafwyd problemau ariannol o fewn y teulu a achosodd gwympo mas geiriol a chorfforol rhwng Dad a Mam. Bu Steffan yn aml yn dyst i'r ffrwydriadau yma. Disgrifir trawma mewn plentyndod gan Knott(2023), Campbell et al(2016) a Herman(2020) fel digwyddiadau dirdynol sy'n digwydd yn ystod plentyndod sydd yn cael effeithiau gydol oes ar iechyd ac ymddygiad yr unigolyn. Ymhelaetha Bradley, Kinchington(2024) a Mind Cymru(2023) ymhellach ar y pwynt yma gan ddweud bod yr unigolion sydd wedi profi profiad trawmatig yn ystod eu plentyndod yn fwy tebygol o ddatblygu problemau iechyd meddwl megis gorbryder o ganlyniad i'r trawma. Gwelir hyn yn glir ym mhroffil Steffan gan wrth ddarllen ei broffil mae'n amlwg bod Steffan yn dioddef o orbyrder gwael o ganlyniad i'w brofiad cynnar o drawma yn y cartref. Golyga'r ansefydlogrwydd yn y cartref yn ystod ei blentyndod cynnar bod Steffan yn gweld hi'n anodd rheoli a deall ei emosiynau yn gyflawn yn ogystal mae'n ofni siarad yn agored am ei deimladau, dyweda Reister(2024) a Chafouleas(2019) bod hyn yn gallu bod yn rhwystro mawr yn natblygiad plentyn gan olygir ni fydd y plentyn yn meithrin y gallu i brosesu emosiynau. Dyweda Llywodraeth Cymru(2021), Estyn(2020) a McAuley(2010) bod angen gweithredu er mwyn sicrhau bod ysgolion yn gwneud pob dim o'u gallu er mwyn cefnogi plant sydd yn dioddef o ganlyniad i drawma mewn plentyndod. Serch hyn dadleua Leatherman(2007) nid yw hwn bob amser yn cael ei wireddu oherwydd diffyg dealltwriaeth yr athro o drawma. Ymhelaetha Estyn(2023) ymhellach ar y pwynt yma gan ddweud heb y parodrwydd i gael dealltwriaeth sylfaenol o drawma nid oes modd i'r athro cynorthwyo'r plentyn i wneud unrhyw gynnydd ar ei lwybr dysgu gan mi fydd effeithiau'r trawma yn rhwystro unrhyw fath o gynnydd, golygir hyn felly nid oes modd i'r athro cefnogi'r plentyn. Sonnir yn yr atodiad isod bod Steffan ar fin trosglwyddo o flwyddyn 3 i 4. Er fod y trosglwyddiad yma i weld yn fach dywed Brooks(2019) bod unrhyw fath o drosglwyddiad i blant sydd yn dioddef o drawma yn fawr oherwydd y diffyg sefydlogrwydd sydd yn gysylltiedig gyda'r newid. Gobeithir cefnogi Steffan gyda'r trosglwyddiad yma drwy weithredu strategaethau er mwyn cefnogi Steffan ar ei daith, cytuna Llywodraeth Cymru(2015) mai defnyddio strategaethau yw'r modd orau o sicrhau cynnydd. Er hyn dadleua Reister(2024), Morgan a Costello(2023) bod angen bod yn ofalus wrth ddefnyddio strategaethau i geisio cefnogi disgybl sydd yn dioddef o effeithiau trawma gan ni fydd pob strategaeth yn gweithio gyda phob unigolyn gan fod gan pob unigolyn profiad unigryw o drawma ac yn ymdopi â thrawma mewn gwahanol ffyrdd. Golygir bod angen addasu strategaethau er mwyn cwrdd

ag anghenion personol pob disgybl. Gwelir rhagor o wybodaeth am Steffan yn yr atodiad isod.

Dadleua'r damcaniaethwyr Maslow(2023) bod trawma yn gallu effeithio ar allu plentyn i wneud cynnydd ar ei lwybr dysgu. Dywed theori Maslow(2023) er mwyn i blant ddatblygu'n gyflawn bod angen cyflawni cyfres o anghenion sef seicolegol, diogelwch, y teimlad o berthyn, hunan- barch a chyflawniad personol. Mae trawma yn effeithio ar allu plentyn i deimlo'n ddiogel gan fod diogelwch efallai yn un maes sydd wedi peri ansicrwydd ac anhapusrwydd iddynt yn y gorffennol. Ymhelaetha Burleson a Thoron(2014) ymhellach ar theori Maslow(2023) gan ddweud heb i blentyn teimlo'n ddiogel yn y cartref mi all hyn effeithio ar allu'r plentyn i ffocysu ar addysgu yn yr ysgol. Golyga hyn felly mi fydd Steffan yn gweld anhawster mawr canolbwyntio yn yr ysgol mi fydd hyn felly yn arwain at ragor o orbryder. Datblyga Kayir(2022) a Dweck(2017) y syniad yma ymhellach gan ddweud mi fydd plant dim ond yn gallu gwneud cynnydd pan fyddant yn fodlon bod eu hanghenion wedi'u diwallu. Golyga hyn felly mi fydd Steffan dim ond yn gallu gwneud cynnydd ar ei lwybr addysgol os bydd pob anghen wedi ei fodloni. Wrth feithrin strategaethau i ddefnyddio gyda Steffan wrth iddo drosglwyddo mi fydd modd ceisio cyflawni'r anghenion yma. Er hyn dadleua King-Hill(2015), Tay a Diener(2011) nad yw theori Maslow(2023) yn ddigon soffistigedig i ymdrin yn ddwys a thrawma gan nad yw'r theori yn cymryd mewn i ystyriaeth bod gan bob plentyn profiad gwahanol o drawma a bod pob plentyn yn delio gyda thrawma mewn gwahanol ffyrdd. Ymhelaetha Ryder(2013) a Reister(2024) ymhellach gan ddweud bod hi'n holl bwysig i edrych ar bob plentyn fel unigolyn. Dywed Bowen(2021) bod theori Maslow(2023) yn dangos sut mae profiadau plant gyda phobl ar amgylchedd yn gallu effeithio ar allu plentyn i wneud unrhyw fath o gynnydd. Gwelir y syniad yma yn cael i ddatblygu ymhellach yn theori Bronfenbrenner. Dadleua Crosby(2015) a Harenczyk et al(2014) bod theori Bronfenbrener yn dangos sut mae profiadau negyddol yn y cartref yn gallu effeithio ar allu plentyn i brosesu emosiynau ac mi all hyn felly arwain at broblemau iechyd meddwl yn y dyfodol. Mae hyn yn wir am Steffan gan ei fod wedi cael profiad negyddol o drawma yn y gorffennol mae hyn wedi arwain iddo i ddatblygu orbryder gan ei fod ddim yn meithrin y gallu i deimlo yn ddigon sefydlog i allu prosesu unrhyw emosiwn. Datblyga Aubrey a Riley(2022) y syniad yma ymhellach gan ddweud bod angen i blentyn ansefydlog dderbyn cymorth er mwyn datblygu'n gyflawn. Bwriedir defnyddio'r strategaethau gyda Steffan er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni. Er hyn dadleua Gray, Mcblain(2015) a Boulanger(2016) bod theori Bronfenbrenner yn dangos unwaith bod plentyn yn profi profiad negyddol yn y cartref bod yr effeithiau yn hir dymor ac yn gadael ei ôl. Dywedir nid yw cymorth wrth eraill bob amser yn sicrhau bod y plentyn yn datblygu'n gyflawn mi fydd y rhwystrau bob amser yn bresennol yn ystod y broses datblygu.

Dywed Symonds(2015) a Packer(2021) bod y broses o drosglwyddiad yn gallu achosi nerfusrwydd i unrhyw blentyn oherwydd ofn yr anghyfarwydd sydd yn gysylltiedig â hi. Er hyn i blentyn fel Steffan sydd yn dioddef o orbryder o ganlyniad i drawma yn ei blentyndod mae'r broses o drosglwyddiad llawer fwy cymhleth oherwydd yr ymdeimlad o ansefydlogrwydd sydd yn gysylltiedig â hi. Dadleua Brooks(2019) ac Estyn(2024) ymhellach gan ddweud yn gysylltiedig â throsglwyddo mae'r ymdeimlad o golli rheolaeth, anallu i ddychmygu beth yw'r dyfodol a'r ofn i gyd yn ffactorau sydd yn gwneud trosglwyddo yn anodd i blant sydd wedi profi trawma. Er bod Steffan dim ond yn trosglwyddo i ddosbarth newydd dywed Freud(2020) bod angen i ysgolion paratoi yn ddigon cynnar er mwyn sicrhau bod y cymorth priodol ar gael i blant sydd yn gweld trosglwyddo yn broses anodd, golyga hyn felly bod eu cynnydd a'u datblygiad yn cael eu rhoi cyn bob dim arall. Ymhelaetha Bridges(1991) ar y syniad yma gan ddweud bod trosglwyddo yn broses yn hytrach na ddigwyddiad. Wrth ymdrin â throsglwyddiad Steffan fydd angen trin y sefyllfa fel proses trwy ddatblygu strategaethau yn ddigon cynnar er mwyn sicrhau nad yw'r broses yn llethu Steffan ac yn rhwystro'i gynnydd. Serch hyn dadleua Valentine(2003) bod nam yn perthyn i fodel trosglwyddo Bridges(1991). Golyga hyn mi fydd model trosglwyddo Bridges(1991) dim ond yn llwyddiannus os oes gan yr unigolyn sydd yn cynorthwyo'r trosglwyddiad deallusrwydd cadarn o anghenion emosiynol plant sydd yn dioddef o orbryder, os nad yw hyn yn bresennol ni fydd modd sicrhau cynnydd a datblygiad. Er mwyn sicrhau nad yw hyn yn digwydd gyda Steffan mi fydd angen i'r athro meithrin dealltwriaeth gadarn o anghenion Steffan cyn dechrau'r broses o drosglwyddiad er mwyn sicrhau'r trosglwyddiad orau posib, er mwyn cyflawni hyn bydd angen i'r athro cydweithio'n agos gyda Steffan. Datblyga astudiaeth achos Estyn(2020) y pwynt yma ymhellach gan ddweud bod angen i ysgolion cael "dealltwriaeth glir o'r rhwystrau sy'n wynebu disgyblion" (Estyn, 2020, tud 9), er mwyn sicrhau bod y cymorth priodol yn cael ei gynnig.

"Mae cwricwlwm llwyddiannus, yn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd ystyrion" (Llywodraeth Cymru, 2021, tud 5). Er mwyn sicrhau cyflawnir y nod yma datblygir cyfres o strategaethau i gynorthwyo Steffan ar y broses o drosglwyddo. Y strategaeth gyntaf i ddarparu sylfaen ar gyfer cynnydd yw i greu proffil un tudalen ar gyfer Steffan. Dadleua Noddings(2015) bod hi'n hanfodol bod gan athrawon caffael gadarn o ddiddordebau, anghenion neu bryderon eu disgyblion er mwyn darparu'r cymorth orau. Ymhelaetha Calp a Kaskaya(2020) ymhellach gan ddweud bod meithrin dealltwriaeth gadarn o ddisgybl bregus yn hanfodol er mwyn datblygu amgylchedd diogel a chysylltiadau cryf gyda'r disgybl. Wrth ddarparu cyfle i Steffan i greu proffil un tudalen ei hun i rannu gyda'r athro newydd, mi fydd modd i Steffan i bersonoli y proffil ei hun i ddiwallu ei ddiddordebau ac anghenion ac mi fydd modd i'r athro

newydd weithredu wrth ddefnyddio'r wybodaeth hyn. Dywed Turner et al(2023) bod hwn yn gryfder mawr gan y mae yn rhoi i'r plentyn rheolaeth dros sefyllfa y mae yn teimlo mewn gwirionedd nad yw yn medru rheoli. Profwyd llwyddiant y strategaeth yma yn ystod PAP 2, gan y casglodd yr ysgol dystiolaeth berthnasol am blentyn i ddefnyddio ar lawr y dosbarth wrth ddefnyddio proffil un tudalen. Serch hyn mae Reardon et al(2018) a Calp(2020) yn herio effeithlonrwydd y strategaeth yma gan ddweud wrth adael i blentyn llunio proffil un tudalen ei hun efallai ni fydd modd casglu llawer o wybodaeth am y plentyn gan efallai bydd y plentyn yn ofni rhannu gwybodaeth gyda phobl newydd. Golyga hyn felly y gallai cynnydd Steffan cael ei rhwystro oherwydd diffyg gwybodaeth. Er mwyn ceisio goresgyn y broblem yma credir mai'r ffordd orau yw i gael Steffan, Mam Steffan ar hen athro dosbarth i gydweithio i greu proffil un tudalen ,golygir hyn felly bod modd casglu'r wybodaeth berthnasol i gynorthwyo Steffan i wneud cynnydd. Ymhelaetha Llywodraeth Cymru(2016) ymhellach gan ddweud er mwyn i blant gwneud cynnydd bod angen cydweithio gyda rhanddeiliad gan fod modd iddynt ddarparu ffynhonnell wybodaeth ychwanegol.

Strategaeth arall i geisio cefnogi Steffan wrth iddo drosglwyddo i ddosbarth newydd yw i greu ardal ddiogel yn y dosbarth newydd. Dyweda Cowley(2021) , Glazzard a Bligh(2018) bod hi'n hollbwysig i ddarparu amgylchedd diogel i blant sydd yn dioddef o orbryder gan fod yr ymdeimlad o ddiogelwch yn caniatáu i blant i wneud cynnydd a chyflawni eu llawn botensial. Datblyga Senedd Cymru(2020) y pwynt yma ymhellach gan ddweud wrth ddarparu lle diogel i blentyn bregus yn y dosbarth maent yn teimlo'r ymdeimlad o berthyn. Gobeithir felly wrth greu lle diogel i Steffan yn y dosbarth newydd a'i adael i ymweld ar ardal cyn symud i'r dosbarth mi fydd hyn yn lleihau ei orbryder ymhellach gan ei fod yn gwybod bod rhywle diogel ar gael iddo i fynegi ei deimladau. Wrth ddarllen proffil Steffan yn yr atodiad isod gwelir pan ei fod yn teimlo wedi ei lethu gydag emosiynau bydd Steffan yn rhedeg allan o'r dosbarth i guddio. Wrth ddarparu ardal ddiogel i Steffan yn y dosbarth newydd gobeithir mi fydd hyn yn annog Steffan i aros yn y dosbarth, unwaith eto mi fydd hyn yn golygu cynnydd. Er hyn cwestiynir effeithlonrwydd y strategaeth yma gan Barret(2020) ac Anderson(2021) gan ddywedant efallai mi fydd y plentyn yn mynd yn or-ddibynnol ar yr ardal ddiogel ac yn camddefnyddio'r ardal er mwyn osgoi addysgu neu gymdeithasu, golyga hyn felly cynnydd yn cael ei rhwystro unwaith eto. Credir mai'r ffordd orau i geisio sicrhau nad yw hyn yn digwydd yw rhoi amser ydy yn yr ardal ddiogel fel bod Steffan yn gwybod nid oes modd defnyddio'r ardal am ormod o amser. Mi fydd hyn yn sicrhau nad yw Steffan yn mynd yn or-ddibynnol ar yr ardal a golygir hyn felly bod modd i Steffan gwneud cynnydd tu allan i'r ardal.

Credir strategaeth arall bydd yn cynorthwyo Steffan i wneud cynnydd wrth drosglwyddo yw i ddefnyddio cardiau emosiynau. Dyweda Saunderland a Armstrong(2018) bod cardiau emosiynau yn darparu sylfaen gadarn i blant enwedig plant sydd yn dioddef o orbryder i ddechrau mynegi emosiynau. Yn lle defnyddio geiriau i fynegi ei bryderon mi fydd Steffan yn dewis delweddau or cardiau i ddangos ei deimladau neu bryderon. Profwyd llwyddiant y strategaeth yma yn yr ysgol PAP 2 roedd y cardiau yn darparu sylfaen i ganiatau plant bregus i ddechrau mynegi emosiynau. Dywed Drake(2012) bod hi'n hanfodol bod plant yn dechrau mynegi emosiynau gan fod hyn yn arwain at hunan-ffeithlonrwydd a chynnydd. Golyga'r cardiau nid oes angen i Steffan fynegi ei emosiynau ar lafar, gwelir wrth ddarllen ei broffil yn yr atodiad isod bod Steffan yn cael anhawster gwneud hyn. Dadleua Hasanova,(2023) a EEF(2021) bod hwn yn gryfder mawr gan nad yw'r plentyn sydd yn rhan o'r strategaeth yn teimlo unrhyw bwysau i rannu gwybodaeth ar lafar. Wrth gynnal y strategaeth cyn trosglwyddo bydd modd casglu gwybodaeth am deimladau Steffan a gweithredu arnynt cyn trosglwyddo. Serch hyn dadleua Renninger et al (2014) mi fydd y strategaeth yma dim ond yn effeithiol os oes gan y plentyn diddordeb i gymryd rhan yn y strategaeth, heb ddiddordeb ni fydd y strategaeth yn effeithiol a golygir hyn felly diffyg cynnydd. Er mwyn sicrhau diddordeb credir mai'r ffordd orau yw i ddefnyddio diddordebau Steffan i arwain y strategaeth, er enghraifft gwelir wrth ddarllen proffil Steffan yn yr atodiad isod bod gan Steffan ddiddordeb mawr mewn celf , felly credir dylir darparu cyfle i Steffan i ddylunio cardiau ei hun. Golygir hyn mi fydd modd personoli'r cardiau yn seiliedig ar ei deimladau a golygir hyn mi fydd modd cynnal ei ddiddordeb wrth gynnal y strategaeth(Sanders, 2013) ac felly casglu gwybodaeth am ei bryderon am drosglwyddo.

Y strategaeth olaf bwriedir defnyddio i gynorthwyo Steffan yw i ganiatau i dedi Steffan ymweld ar ddosbarth newydd gyda Steffan. Dyweda Tribot(2022) a Gjersoe(2015) wrth ganiatau i blentyn bregus i fynd a thegan cyfarwydd wrth fynd i ymweld â sefyllfa newydd fod hyn yn gallu lleihau gorbryder y plentyn. Wrth adael i Steffan fynd a Sbot i ymweld ar ddosbarth newydd gobeithir y bydd hyn yn lleihau ei bryderon am ei sefyllfa newydd. Er hyn efallai mi fydd cyd-ddisgyblion Steffan yn ymateb yn negyddol i Steffan yn dod a Sbot i'r ysgol. Dyweda Siencyn(2008) byddai ymatebion negyddol gan gyfoedion yn sicr yn cyfrannu at ganlyniadau negyddol, golygir hyn felly cynnydd yn cael eu rhwystro unwaith yn rhagor. Credir mai'r ffordd orau o osgoi hyn yn digwydd yw i gynnal y strategaeth amser chwarae neu ginio er mwyn osgoi eraill yn tarfu ar y strategaeth ac felly rhwystro cynnydd.

Fel yr amlinellir yng nghorff y traethawd mae cydweithio yn hanfodol er mwyn sicrhau cynnydd.(Wilson, 2019). Mae cydweithio yn un o'r deuddeg egwyddor addysgegol, o ganlyniad dylai athrawon wrth gynllunio bachu ar gyfleoedd i gydweithio er mwyn cryfhau

addysgeg ymhellach. (Donaldson, 2015). Wrth gydweithio gyda Steffan, mam ar hen athro dosbarth mi fydd hyn yn sicrhau'r trosglwyddiad mwyaf esmwyth a phosib i Steffan. Bydd modd casglu gwybodaeth o wahanol safbwyntiau am bryderon Steffan am drosglwyddo a beth yw'r modd orau o weithredu. Dadleua Kelty(2020) ac Estyn(2020) wrth gydweithio bod modd cryfhau perthnasoedd. Mae hyn yn allweddol i Steffan gan heb berthynas gadarn ni fydd modd gwneud unrhyw gynnydd. Gwelwyd hyn yn aml yn digwydd yn yr ysgol PAP 2 gan fod yr ysgol yn gredwyr cryf bod cydweithio yn gallu cryfhau unigolyn. Serch hyn dadleua Preston(2022) nid yw cydweithio bob amser yn digwydd mewn ysgolion, er enghraifft nid yw ysgolion bob amser yn cydweithio gyda rhieni oherwydd nid yw ysgolion yn cydnabod bod gan rieni rôl allweddol yn natblygiad addysgol plant, golygir hyn felly straen yn cael eu gosod ar y perthynas.

Felly i gloi mae'n amlwg mi fydd Steffan yn elwa o ddefnyddio'r strategaethau a sonnir amdanynt uchod i gynorthwyo'r broses trosglwyddo. Er hyn mae angen bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r strategaethau ar adegau gan fod gwendidau yn perthyn iddynt. Mi fydd angen i Steffan gydweithio'n agos a'r athro newydd ac mi fydd angen i'r athro newydd gydweithio'n agos gyda Steffan, mam a'r hen athro dosbarth, wrth wneud hyn sicrhau cynnydd (Estyn, 2020). Wrth weithredu'r strategaethau yma mi fydd hyn yn caniatáu i'r athro dosbarth gyflawni'r safonau SAC o wrando ar ddysgwyr a datblygu technegau newydd. Golygir hefyd, o wneud yr aseiniad hwn, fy mod i'n gwella fy arfer broffesiynol ymhellach. Mae'r aseiniad yma wedi caniatáu i mi i wella fy nealltwriaeth o sut mae trawma yn gallu effeithio ar ddatblygiad unigolyn, rhywbeth nad oeddwn yn gynt yn wir yn ymwybodol ohono. Atgyfnertha'r aseiniad yma felly y safon SAC o bwysigrwydd darllen ehangach a gweithredu ar ganfyddiadau ymchwil. Trwy ddysgu ein hunain rydym yn sicrhau bod plant yn gallu gwireddu eu potensial fel dysgwyr ac unigolion yn ôl 4 diben Llywodraeth Cymru(2022).

Rhestr gyfeirio 6014C:

Anderson, D., 2021. An epistemological conception of safe spaces. *Social epistemology*, 35(3), tt.285-311.

Aubrey K, Alison R, (2022)-*Understanding and using educational theories*: London:SAGE Publications 3rd editions.

Barrett, B.J., 2020. Is" Safety" Dangerous? A Critical Examination of the Classroom as Safe Space. *Canadian Journal for the Scholarship of Teaching and Learning*, 1(1), p.9.

Bera, (2024)- *Ethical Guidelines for Educational Research, fifth edition*

Ar gael ar- Ethical Guidelines for Educational Research, fifth edition (2024) | BERA

Cyrchwyd-(4ydd o Dachwedd 20204)

Boulanger, D., 2016. Ecosystem from discursive perspective: critic of Bronfenbrenner's approach. *Psychology & Society*, 11(1), tt.212-230.

Bowen, B., 2021. The matrix of needs: Reframing Maslow's hierarchy. *Health*, 13(5), tt.538-563.

Bradley C, Kinchington F (2024)- Trauma in children and young people: Reaching the heart of the matter:London:Routledge.

Bridges W, (1991)- *Bridges transition model*.

Brooks R, (2019)- *The trauma and attachment-aware classroom:a practical guide to supporting children who have encountered trauma and adverse childhood experiences*:London:Jessica Kingsley Publishers

Burleson, S.E. and Thoron, A.C., 2014. Maslow's hierarchy of needs and its relation to learning and achievement. *Gainesville: Department of Agricultural Education and Communication*.

Calp, Ş. and Kaşkaya, A. (2020). How do you know me? How do you look at me? A Study on Teachers' ways of getting to know their students. *International Journal of Progressive Education*, 16(5), tt.348–369. doi:<https://doi.org/10.29329/ijpe.2020.277.22>.

Calp, Ş. (2020). Peaceful and happy schools: How to build positive learning environments. *International Electronic Journal of Elementary Education*, 12(4), tt.311–320. doi:<https://doi.org/10.26822/iejee.2020459460>.

Campbell, C., Roberts, Y., Synder, F., Papp, J., Strambler, M. and Crusto, C., 2016. The assessment of early trauma exposure on social-emotional health of young children. *Children and youth services review*, 71, tt.308-314.

Chafouleas, S.M., Koriakin, T.A., Roundfield, K.D. and Overstreet, S. (2018). Addressing Childhood Trauma in School Settings: a Framework for Evidence-Based Practice. *School Mental Health*, [online] 11(1), tt.40–53. doi:<https://doi.org/10.1007/s12310-018-9256-5>.

Comisiynydd Plant Cymru, (2024)- *Confensiwn y Cenhedloedd Undedig ar hawliau plentyn*

Ar gael ar-Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn - Testun llawn - Children's Commissioner for Wales (complantcymru.org.uk)

Cyrchywd-(29ain o Hydref 2024)

Cowley A, (2021)- *The wellbeing curriculum*:London:Bloomsbury education.

Crosby, S.D., 2015. An ecological perspective on emerging trauma-informed teaching practices. *Children & Schools*, 37(4), tt.223-230.

Donaldson G (2015)- *Dyfodol Llwyddiannus*

Ar gael ar-dyfodol-llwyddiannus.pdf (llyw.cymru)

Cyrchwyd-(8fed o Dachwedd 2024)

Drake, J.E. and Winner, E., 2013. How children use drawing to regulate their emotions. *Cognition & emotion*, 27(3), tt.512-520.

Dweck, C.S., 2017. From needs to goals and representations: Foundations for a unified theory of motivation, personality, and development. *Psychological review*, 124(6), tt..689.

EEF (2021)-*Social and emotional learning*.

Ar gael ar-Social and emotional learning | EEF

Cyrchwyd-(29ain o Hydref 2024)

Estyn (2023)- *Effaith bod yn ystyriol o drawma*.

Ar gael ar-Effaith Bod yn Ystyriol o Drawma - Estyn (llyw.cymru)

Cyrchwyd- (29ain o Hydref 2024)

Estyn (2020)-Ysgolion cymunedol:teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd ysgol.

Ar gael ar-Ysgolion cymunedol: teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd ysgol

Cyrchwyd-(4ydd o Dachwedd 2024)

Estyn- Cynnwys rhieni , disgyblion ac athrawon i greu cwricwlwm cyfoethog ac arloesol.

Ar gael ar-Cynnwys rhieni, disgyblion ac athrawon i greu cwricwlwm cyfoethog ac arloesol – Estyn

Cyrchwyd-(8fed o Dachwedd 2024)

Estyn (2020)-*Cymorth effeithiol yn yr ysgol ar gyfer disgyblion sydd dan anfantais a disgyblion sy'n agored i niwed-astudiaethau achos arfer da.*

Ar gael ar-Cymorth effeithiol yn yr ysgol ar gyfer disgyblion sydd dan anfantais a disgyblion sy'n agored i niwed – astudiaethau achos arfer dda (llyw.cymru)

Cyrchwyd- (29ain o Hydref 2024)

Estyn (2024)-*Pontio a chynnydd disgyblion.*

Ar gael ar-Thematic survey report

Cyrchwyd- (8fed o Dachwedd 2024)

Freud A (2023)-Trauma

Ar gael ar-Trauma | Anna Freud

Cyrchwyd- (8fed o Dachwedd 2024)

Freud A (2020)-*Mentally healthy schools transitions*

Ar gael ar- Transitions : Mentally Healthy Schools

Cyrchwyd-(29ain o Hydref 2024)

Gjersoe, N.L., Hall, E.L. and Hood, B., 2015. Children attribute mental lives to toys when they are emotionally attached to them. *Cognitive Development*, 34, tt.28-38.

Glazzard J, Bligh C, (2018)-*Meeting the mental health needs of children 4-11 years: 1st edition*:London:Critical publishing.

Gray, C. & Macblain, S (2015)- *Learning Theories in Childhood* (2il arg.) London: SAGE.

Harenczyk R, Brom D, Vogel J, (2014)- *Helping children cope with trauma*:Londong:Routledge.

Hasanova G., Aghayev A. (2023). The Use of Emotion Cards and Positive Psychology Techniques in Organizing Psycho-Correctional Work. *European Journal of Humanities and Social Sciences* 2024, No 1. <https://doi.org/10.29013/EJHSS-24-1-34-45>

Herman, J., 2020. The Aftermath of Violence: Trauma and Recovery. *Transforming Terror. New.*

Kayir, G., 2022. EMMI PIKLER'S APPROACH TO EARLY CHILDHOOD EDUCATION. *Student-Friendly Teaching Approaches*, tt.1.

Kelty, N.E. and Wakabayashi, T. (2020). Family engagement in schools: Parent, educator, and community perspectives. *SAGE Open*, [online] 10(4), tt.1–13.
doi:<https://doi.org/10.1177/2158244020973024>.

King-Hill, S., 2015. Critical analysis of Maslow's hierarchy of need. *The STeP Journal (Student Teacher Perspectives)*, 2(4), tt.54-57.

Knott G, (2023)-*Adverse childhood experiences (ACES) Report Uk*

Ar gael ar-File.aspx (myacestory.com)

Cyrchwyd- (29ain o Hydref 2024)

Leatherman, J.M., 2007. I just see all children as children": Teachers' perceptions about inclusion. *The qualitative report*, 12(4), tt.594-611.

Llywodraeth Cymru (2022)- *Canllawiau Cwricwlwm Cymru*

Ar gael ar- Cwricwlwm i Gymru - Hwb

Cyrchwyd- (29ain o Hydref 2024)

Llywodraeth Cymru (2021)- *Adolygiad o'r polisi ynghylch profiadau niweidiol yn ystod plentyntod:adroddiad.*

Ar gael ar-Adolygiad o'r polisi ynghylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod: adroddiad [HTML] | LLYW.CYMRU

Cyrchwyd- (29ain o Hydref 2024)

Llywodraeth Cymru(2016)-*Wynebu'r her gyda'n gilydd:Pecyn cymorth ymgysylltu a'r gymuned a theuluoedd i ysgolion yng Nghymru.*

Ar gael ar-wynebu-r-her-gyda-n-gilydd-ygath-pecyn-cymorth-ymgysylltu-a-r-gymuned-a-theuluoedd-i-ysgolion-yng-nghymru-prif-ganllawiau.pdf (llyw.cymru)

Cyrchwyd-(29ain o Hydref 2024)

Llywodraeth Cymru (2015)-*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol Cymru*.

Ar gael ar-Deddf llesiant cenedlaethau'r dyfodol: yr hanfodion (llyw.cymru)

Cyrchwyd- (29ain o Hydref 2024)

Maslow A (2023)- *A theory of human motivation*:USA:Zinc read

McAuley C, Rose W (2010)- *Child well-being:understanding children's lives*:London:Jessica Kingsley Publishers.

Mind Cymru (2023)- *Trawma:Sut y gallai trawma effeithio arnaf i?*

Ar gael ar-Effeithiau trawma – Mind

Cyrchwyd- (29ain o Hydref 2024)

Morgan, F., Costello, E., & Gilbert, I. (2023). *Square Pegs : Inclusivity, compassion and fitting in - a guide for schools*. Carmarthen:Crown House Publishing.

Nel Noddings (2015). *The challenge to care in schools : an alternative approach to education*. 2nd ed. New York: Teachers College Press.

Packer, R. (2021). *All change! : best practice for educational transitions*. London:Critical Publishing.

Preston, T. (2022). A Look Back: Evolving views on parental engagement in schools. Phi Delta Kappan, 103(7), t.t. 5-7. <https://doi.org/10.1177/00317217221092226>

Reardon, T., Spence, S.H., Hesse, J., Shakir, A. and Creswell, C. (2018). Identifying children with anxiety disorders using brief versions of the Spence Children's Anxiety Scale for children, parents, and teachers. *Psychological Assessment*, 30(10), tt.1342–1355. doi:<https://doi.org/10.1037/pas0000570>.

Reister, H., 2024, September. A Trauma Informed Approach with Children: Implementing Trauma Sensitive Strategies in Family and Consumer Sciences Programming. In *Conference Proceedings of the National Extension Association of Family & Consumer Sciences 90th Annual Session* (tt. 88).

Renninger, K.A., Hidi, S. and Krapp, A, Mayer R. (2014). The Role of Interest in Learning and Development. *The American Journal of Psychology*, 107(2), tt.319. doi:<https://doi.org/10.2307/1423047>.

Ryder N (2013)- *Yr ABC i Anghenion ychwanegol*:Canolfan Peniarth PCYDDS

Sanders, M. J. (2013). Classroom Design and Student Engagement. 57(1), tt. 496-500.
<https://doi.org/10.1177/1541931213571107>

Saunders M, Armstrong N, (2018)- *Draw on your emotions*:London:Routledge.

Senedd Cymru, (2020)- *Cadernid meddwl:ddwy flynedd yn ddiweddarach*.

Ar gael ar- cr-ld13568-w.pdf

Cyrchwyd- (29ain o Hydref 2024)

Siencyn S (2010)- *Y plentyn bach-Cyflwyniad i astudiaethau plentynod cynnar-cyhoeddiadau coleg y drindod*.

Symonds J, (2015)- *Understanding school transition:what happens to children and how to help them*:Oxford:Taylor and Francis group.

Tay, L. and Diener, E., 2011. Needs and subjective well-being around the world. *Journal of personality and social psychology*, 101(2), tt.354.

Tribot, A. S., Blanc, N., Brassac, T., Guilhaumon, F., Casajus, N., & Mouquet, N. (2023). What makes a teddy bear comforting? A participatory study reveals the prevalence of sensory characteristics and emotional bonds in the perception of comforting teddy bears. *The Journal of Positive Psychology*, 19(2), tt.379–392.
<https://doi.org/10.1080/17439760.2023.2170273>

Turner J, Roberts R, Proeve M, Chen J (2023)- Relationship between PERMA and children's wellbeing, resilience and mental health:A scoping review. *International journal of wellbeing* 13(2), tt.20-44. <https://doi.org/10.5502/ij.v13i2.2515>

Valentine, G., 2003. Boundary crossings: transitions from childhood to adulthood. *Children's Geographies*, 1(1), tt.37-52

Wilson, T. (2016). *Working with parents, carers and families in the early years : the essential guide* (1st ed.)London:Routledge.

Steffan



Dyma Steffan. Mae Steffan yn 8 oed ac mae'n ddisgybl ym mlwyddyn 3 ac ar fin trosglwyddo i flwyddyn 4. Fodd bynnag fe fydd yn gweld y newid hwn yn anodd a heriol gan ei fod yn dioddef o orbryder gwael o ganlyniad i trawma yn ystod ei blentyndod cynnar. O bosib prif achos y trawma yma oedd bywyd ansefydlog Steffan yn y cartref. Roedd Dad yn gaeth i gyffuriau ac o ganlyniad cafwyd problemau ariannol o fewn y teulu a achosodd gwmpo mas geiriol a chorfforol rhwng Dad a Mam. Bu Steffan yn aml yn dyst l'r ffrwydriadau yma. Mae Dad bellach wedi gadael y cartref ac nid oes llawer o gyswllt rhwng ef a Steffan gan fod y cweryla yn parhau rhwng Dad a Mam. Mae Steffan ond yn cael gweld Dad pan fod Mamgu yn bresennol. Mae Steffan yn mwynhau gwersi celf ac mae ef yn mwynhau tynnu lluniau. Yn ogystal mae gan Steffan dedi o'r enw Sbot.

Datblygiad Gwybyddol:

- Mae yn mwynhau gwaith celf yn fawr ac mae yn berson creadigol.
- Er hynny mae Steffan yn aml yn gweld hi'n anodd i aros yn y dosbarth am wers gyfan. O ganlyniad mae ei ddatblygiad gwybyddol tu ôl i'r lefel disgywliedig.

Datblygiad Ieithyddol:

- Nid oes gan Steffan llawer o hyder ac felly nid yw Steffan yn barod i ateb cwestiynau o flaen y dosbarth gan ei fod yn ofni cael yr ateb yn anghywir rhag ofn i'r athrawes godi ei llais. O ganlyniad felly mae ei sgiliau ieithyddol ar lafar yn isel iawn.

Datblygiad Corfforol:

- Mae ei ddatblygiad corfforol ar y lefel disgwylidig.
- Mae Steffan yn mwynhau gwersi lles corfforol ac mae yn ymrhroi yn llawn iddynt. Mae'n hoffi treulio amser yn yr awyr agored.

Datblygiad Emosiynol:

- Mae Steffan yn ofni dod mewn l'r ysgol yn y bore ac yn aml mae'n gwrthod dod allan o'r car nes i'r athrawes ddosbarth ddod i'w ol.
- Mae Steffan yn cael trafferth hunan reoleiddio ei emosiynau. O ganlyniad os yw yn teimlo wedi ei lethu gydag emosiynau bydd Steffan yn rhedeg allan o'r dosbarth i guddio.
- Nid yw Steffan yn hoffi pan fod pobl yn codi llais. Os mae hyn yn digwydd mae Steffan yn mynd i banig.
- Nid yw Steffan yn hoffi newid. Mae yn gaeth i batrymau.

Datblygiad Cymdeithasol:

- Mae Steffan yn ofni siarad a chymdeithasu gydag eraill yn y dosbarth. Mae yn ei chael hi'n anodd i ymddiried mewn pobl eraill. Fodd bynnag pam mae Steffan yn llwyddo i sefydlu perthynas gydag unigol y mae yn fodlon iawn i gydweithredu.
- Mae gan Steffan ymlyniad agos iawn i'w athrawes ddosbarth ac yn aml mae'n treulio ei amser egwyl a chinio gyda'r athrawes. Os nad yw'r athrawes yn bresennol mae Steffan yn profi gorbryder gwael ac yn mynd i fewn i'w gragen.

Sut i gefnogi Steffan i drosglwyddo i flwyddyn 4?

- Darparu lle diogel i Steffan i hunan reoleiddio ei emosiynau.
- Creu proffil un tudalen gydag Steffan.
- Cardiau emosiynau.
- Caniatau tedi Steffan i ddod i'r dosbarth.
- Taflen dechreuadau brawddeg i Steffan er cynnig strwythur iddo rannu gwybodaeth ychwanegol amdano.